Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;
Mid Wales Corporate Joint Committee

# CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (CTRH) CANOLBARTH CYMRU

## Teclyn Asesu Effaith Integredig

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

Mae'r teclyn AEI hwn wedi'i gynllunio i helpu'ch proses benderfynu a sicrhau bod eich cynnig:

- yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor
- yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg)
- yn cyfrannu at nodau Llesiant Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cynnwys egwyddorion Datblygu Cynaliadwy
- yn ystyried rheoli risg.

Drwy gydol y ddogfen mae ffenestri naid gwybodaeth. Gallwch hofran drosodd rhain i gael awgrymiadau a chynghorion. Maen nhw'n edrych fel hyn - **AWGRYM**

Mae hefyd dolenni gwe i ffynonellau data tystiolaeth a allai helpu i lywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. I weld y wybodaeth hon pwyswch **ctrl** ar eich bysellfwrdd a chliciwch ar y ddolen.

Mae swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn darllen trwy bob AEI ac yn rhoi adborth i'r awdur drwy Swyddogion Arweiniol Corfforaethol. Mae AEI a gyflwynir i'r Cabinet yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor fel y gall y cyhoedd eu gweld.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

Mae'r teclyn AEI hwn wedi'i gategoreiddio yn y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol i Gymru:

1. **Cymru lewyrchus -** lle mae gan bawb swyddi a does dim tlodi.
2. **Cymru gydnerth** - lle rydym yn barod am bethau fel llifogydd.
3. **Cymru iachach** - lle mae pawb yn iachach ac yn gallu gweld y meddyg pan fo angen.
4. **Cymru sy'n fwy cyfartal** - lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir.
5. **Cymru o gymunedau cydlynus** - lle gall cymunedau fyw'n hapus gyda'i gilydd.
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - lle mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud gwahanol bethau a lle mae llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg.
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** - lle rydym yn gofalu am yr amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y byd.

## A OES ANGEN I MI ASESU EFFAITH?

Ydy eich cynnig yn:

- cyflwyno gwasanaeth newydd neu'n ychwanegu at wasanaeth sy'n bodoli eisoes a fydd yn effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth?
- dileu, lleihau neu'n newid gwasanaeth a fydd yn effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth?
- cyflwyno polisi, strategaeth neu gynllun newydd a fydd yn effeithio ar drigolion Ceredigion?
- cyflwyno newidiadau sylweddol i strategaeth, polisi, neu gynllun sy'n bodoli eisoes a fydd yn effeithio ar drigolion Ceredigion?
- newid strwythurau staffio cymaint fel y gallai gweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau gael eu heffeithio?

**YDY**

Mae angen AEI os mai 'ydy' yw eich ateb i **unrhyw un** o'r cwestiynau hyn.

**NAC YDY**

Nid oes angen AEI os mai nac ydy yw eich ateb i **bob un** o'r cwestiynau hyn.

| Cwblhewch y templed isod. | Cofiwch gynnwys eich rheswm dros beidio â chynnal AEI ar dempled Adroddiad y Cabinet. |
|---|---|

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Mae'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn gwirio bod y papurau a gyflwynwyd i'r Cabinet neu'r Cyngor yn cynnwys AEI wedi'i gwblhau os oes angen, yn unol â'r canllawiau sydd ar gael i Swyddogion.

Mae'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant hefyd yn sicrhau ansawdd yr AEI gorffenedig, gan gynnwys gwiriad ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Rheolwr Corfforaethol, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Etholedig perthnasol.

Yna, bydd y Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn llunio adroddiad cynghorol AEI ac yn ei anfon at y SAC ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, sy'n anfon yr adborth i SAC y gwasanaeth sy'n gyfrifol am yr AEI. Mae'r penderfyniad terfynol ar yr AEI ar gyfer SAC y gwasanaeth perthnasol a llofnodwyr yr AEI.

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| | |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| | |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Datblygu a chyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru. | |
| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?** AWGRYM | |
| Y cyhoedd yn gyffredinol; defnyddwyr trafnidiaeth | |
| **A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno? Rhowch manylion.** | |
| Mae gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynnal yn ystod datblygiad y CTRh. Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yng ngwanwyn 2025. | |

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio’r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae’n bwysig cadw cofnod o’r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| **Rhif y Fersiwn** | **Awdur** | **Cam yn y broses benderfynu**<br>**AWGRYM** | **Dyddiad yr Ystyriwyd** | **Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed**<br>**AWGRYM** |
|---|---|---|---|---|
| 01 | Grace Wootton | CTRhCC Drafft i'w adolygu gan y CBC | 23/07/24 | Amh. |
| 02 | Alice Jennison | CTRhCC Drafft Terfynol | 21/11/2024 | Amh. |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae’r cynnig hwn yn mynd i’r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o’n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** | Un o amcanion CTRh Canolbarth Cymru yw *‘gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, cludo nwyddau a thwristiaeth’*. Bydd polisïau sydd wedi’u cynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Canolbarth felly yn canolbwyntio ar ymyriadau sy’n cefnogi’r economi, busnesau a chyflogaeth. |
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | Un o amcanion CTRh Canolbarth Cymru yw *‘cynyddu lefelau cerdded, seiclo ac olwyno yng Nghanolbarth Cymru’*. I gyd-fynd â’r amcan hwn, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cynnwys ymyriadau sy’n ceisio annog lefelau uwch o gerdded a beicio, gan gyfrannu at ffordd iach o fyw a rhwydwaith trafnidiaeth sy’n blaenoriaethu llesiant. |
| **Darparu’r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu** | Un o amcanion CTRh Canolbarth Cymru yw *‘gwella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden…’.* Bydd ymyriadau felly'n cael eu cynnwys o fewn CTRh Canolbarth Cymru sy'n cynyddu mynediad i gyfleusterau addysg, gan wella rhagolygon plant a phobl ifanc felly. |

| | |
|---|---|
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | Amcanion CTRh Canolbarth Cymru a fydd yn helpu i gyflawni hyn yw:<br>- *'Gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, cludo nwyddau a thwristiaeth'; a*<br>- *'Sicrhau newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy'.*<br><br>I gyd-fynd â'r amcanion hyn, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cynnwys ymyriadau sy'n gwella trafnidiaeth a chysylltiadau digidol o fewn a rhwng cymunedau, ac sydd â ffocws cynaliadwy a gwyrdd megis trafnidiaeth gymunedol, trafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau teithio llesol. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi**.

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cyfrannu at gymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel. Roedd datblygiad amcanion CTRh Canolbarth Cymru yn blaenoriaethu llesiant amgylcheddol ac economaidd Canolbarth Cymru. Yr amcanion a fydd yn cyfrannu at y nod hwn yw:<br>• *Cyflawni newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.*<br>• *Cynyddu lefelau cerdded, seiclo ac olwyno yng Nghanolbarth Cymru.*<br>• *Gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru i gefnogi twf economaidd cynaliadwy, cludo nwyddau a thwristiaeth.*<br>• *Lleihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth, megis trwy leihau'r defnydd o danwydd ffosil, cynnydd yn y defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a gwell cysylltedd digidol.*<br><br>Wrth weithio tuag at yr amcanion uchod, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn annog y defnydd o atebion trafnidiaeth carbon isel, megis teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn drwy wella'r modd y darperir y dulliau hyn. Bydd hefyd yn ceisio gwella sut y gall pobl gael mynediad at wasanaethau ar-lein, naill ai yn lle gyrru neu i gael mynediad at wybodaeth am drafnidiaeth er mwyn cynllunio teithiau yn well.<br><br>Bydd ffocws hefyd ar ymyriadau sy'n gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol ehangach o fewn Canolbarth Cymru, a fydd â manteision cynhyrchiant ar lefel ranbarthol. Ar lefel leol, bydd gwell mynediad at wasanaethau ac amwynderau drwy |

| |
|---|
| ddulliau mwy cynaliadwy yn cael effaith gadarnhaol ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau allweddol, addysg a chyflogaeth.<br><br>O ran arloesi, bydd cysylltedd digidol yn cael ei hyrwyddo o fewn CTRh Canolbarth Cymru megis drwy gael gafael ar wybodaeth am deithio ar-lein, a fydd yn gwella gallu pobl i gynllunio teithiau a gwneud opsiynau trafnidiaeth eraill, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, yn fwy hygyrch. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol yn y Canolbarth yn cyfyngu ar allu'r rhanbarth i gyrraedd y nod hwn. Amlygodd yr Achos dros Newid faterion penodol gydag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, amseriad gwasanaethau, hygyrchedd a fforddiadwyedd, gan gynnwys:<br>• Ychydig iawn o gysylltiadau rhwng aneddiadau allweddol yng Nghanolbarth Cymru<br>• Diffyg darpariaeth bws gyda'r nos ac ar benwythnosau<br>• Mae'n rhaid i fwyafrif y trigolion deithio'n bell i gyrraedd yr arhosfan bysiau neu'r orsaf reilffordd agosaf<br>• Diffyg cyfleusterau cyfnewid a mynediad heb risiau mewn gorsafoedd rheilffordd<br>• Cysylltedd digidol gwael, e.e. Nid oes gan 9.5% o adeiladau unrhyw wasanaethau 4G<br>• Cynyddu prisiau tocynnau trên: cynnydd o 5.7% yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2023<br><br>Cadarnhaodd ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol y materion hyn, gan bwysleisio bod yna gysylltiadau trafnidiaeth gwael â chyrchfannau allweddol, yn enwedig gofal iechyd, sy'n effeithio ar les a chynhyrchiant cyffredinol.<br><br>O ran carbon, mae'r Achos dros Newid yn nodi mai'r defnydd o gerbydau preifat yw'r dull trafnidiaeth sy'n cynhyrchu'r allyriad uchaf, gan gyfrannu at dros 50% o'r holl Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o 2017 – 2021. Felly mae angen hyrwyddo ac annog y defnydd o fwy o ddulliau carbon isel.<br><br>Mae'r Achos dros Newid hefyd yn dangos tystiolaeth o dlodi trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru. Powys a Cheredigion oedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau, gan gynnwys Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Bugeildy ym Mhowys sydd yn yr ail safle mwyaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Felly bydd cyflawni amcanion CTRh Canolbarth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ddefnyddio atebion arloesol i feithrin cymdeithas fwy cynhyrchiol a charbon isel a gwella mynediad at gyfleusterau hanfodol. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Bernir na fydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar y nod llesiant hwn. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau. Bydd yr amcanion i *'wella gwytnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol'* a *'chyflawni newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy'* yn sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol:<br>• Yn cyflwyno cyfleoedd i fod yn strategol wrth wella bioamrywiaeth ar raddfa'r dirwedd;<br>• Â'r gallu i annog ailddatblygu asedau presennol yn ogystal ag adeiladu rhai newydd, i greu ffocws ar gyfer ardaloedd datblygu a darpariaeth gwasanaethau ecosystem, a gwella ansawdd 'ystâd feddal' trafnidiaeth ochr yn ochr â choridorau trafnidiaeth presennol a newydd, i wella cysylltedd cynefinoedd.<br>• Yn gwella ansawdd ystâd feddal trafnidiaeth i wella gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth wrth i'r hinsawdd newid yn y dyfodol, er enghraifft, drwy leihau'r perygl o lifogydd a darparu buddion cysgodi ac oeri.<br>• Yn anelu at ostwng lefelau llygredd, gan gynnwys sŵn, aer a golau, gan leihau'r tarfu ar gynefinoedd a rhywogaethau.<br><br>Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai ymyriadau trafnidiaeth newydd o ganlyniad i GTRh Canolbarth Cymru gael effeithiau lleol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau drwy brosesau megis tresmasu ar gynefinoedd presennol. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei asesu fesul achos wrth i waith dichonoldeb a datblygu fynd rhagddo ar y prosiectau sy'n rhan o'r Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Rhanbarthol.<br><br>Yn gyffredinol, adlewyrchir yr argyfwng hinsawdd a natur o fewn polisïau CTRh Canolbarth Cymru megis trwy flaenoriaethu cerbydau allyriadau sero ac allyriadau isel iawn (ULEVs), teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cydnabyddir hefyd bod ULEVs yn arbennig o bwysig mewn cymunedau mwy gwledig, lle gall fod mwy o rwystrau rhag gwneud llai o siwrneiau car. Felly mae CTRh Canolbarth Cymru yn anelu at leihau allyriadau carbon a diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol drwy ymyriadau trafnidiaeth. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Cynhaliwyd Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac mae'n manylu ar y materion, y cyfleoedd a'r goblygiadau o ran bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â CTRh Canolbarth Cymru. Nododd yr Adroddiad fod yna nifer fawr o safleoedd dynodedig rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ledled Canolbarth Cymru, gan gynnwys 364 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 19 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a phum Gwarchodfa Natur Leol. Gallai'r safleoedd dynodedig gael eu heffeithio gan gynnydd yn natblygiad y seilwaith |

| |
|---|
| trafnidiaeth, ac mae cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt y tu allan i'r ardaloedd gwarchodedig hyn mewn perygl arbennig o gael eu colli, eu difrodi neu eu darnio gan ddatblygiadau trafnidiaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod yna gyfleoedd ar gyfer ymyriadau i ystyried bioamrywiaeth ac ecoleg wrth fynd ati i ddylunio a gweithredu.<br><br>Bydd rhoi dulliau carbon isel ar waith yn lle trafnidiaeth hefyd yn helpu i leihau allyriadau carbon ac felly'n helpu i ddiogelu'r amgylchedd naturiol. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Bydd Adroddiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynhyrchu ochr yn ochr â CTRh Canolbarth Cymru a bydd yn manylu ar unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a gaiff y Cynllun terfynol ar fioamrywiaeth ac ecoleg. Gellir lleihau effeithiau negyddol posibl CTRh Canolbarth Cymru ar fioamrywiaeth ac ecoleg drwy fesurau lliniaru digonol. Gall arolygon bioamrywiaeth ac ecoleg pellach a datblygiad ymyriadau bennu'r mesurau lliniaru mwyaf priodol. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru 'i gynyddu lefelau cerdded, beicio olwynio o fewn Canolbarth Cymru' yn helpu i alluogi pobl i wneud dewisiadau teithio iachach a chynyddu lefelau gweithgaredd corfforol, a fydd yn ei dro o fudd i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae'r ddarpariaeth cerdded a beicio bresennol yn cyfyngu ar allu'r rhanbarth i gyrraedd y nod hwn. Fel y nodwyd yn yr Achos dros Newid, mae'r rhwydwaith teithio llesol yn gymharol gyfyngedig, mae diffyg dwysedd a chysylltedd, ac mae wedi'i ganoli yn y prif drefi a'u cyffiniau, sy'n golygu bod dibyniaeth ar geir yn uchel, a lefelau gweithgarwch corfforol yn is y tu allan i'r prif drefi. Datgelodd yr Achos dros Newid hefyd mai cyfran isel o bobl y Canolbarth sy'n byw o fewn pellter cerdded i arhosfan bysiau neu orsaf reilffordd. O ran ffactorau ffordd o fyw yn y Canolbarth, mae cyfran uchel o bobl yn berchen ar 3 neu fwy o gerbydau preifat ac mae cerbydau preifat yn cyfrif am 50% o siwrneiau i'r gwaith.<br><br>Mae'n hysbys bod mwy o weithgarwch corfforol yn cyd-fynd â nifer o fanteision iechyd corfforol a meddyliol, megis llai o risg o glefyd y galon, diabetes, a phryder ac iselder. Felly, bydd cynyddu argaeledd seilwaith cerdded a beicio drwy gyflawni |

| |
|---|
| amcanion CTRh Canolbarth Cymru yn galluogi pobl i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, a fydd yn dod â manteision iechyd hirdymor. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Bernir na fydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar y nod llesiant hwn. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau**.

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir ichi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Os nad ydych wedi nodi unrhyw effaith fwy ar y grwpiau a restrir nag ar y boblogaeth gyffredinol, dylech ddewis 'Dim / Fawr ddim'.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Cadarnhaol |
| **Pobl 18-50** | Cadarnhaol |
| **Pobl hŷn 50+** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** | |
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran. Bydd yr amcan *'gwella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden…'* yn sicrhau y bydd CTRh Canolbarth Cymru o fudd i bobl o bob oed ac ar draws gwahanol grwpiau oedran drwy wella mynediad.at wahanol wasanaethau allweddol.<br><br>Er y bydd pob grŵp oedran yn elwa'n gadarnhaol o gael mynediad gwell at amrywiaeth o wasanaethau, bydd pobl dros 50 oed yn elwa'n arbennig o gael mynediad gwell at ofal iechyd, pobl 18-50 oed o gael mynediad gwell at gyflogaeth, a phlant a phobl ifanc o gael mynediad gwell at addysg. . Er enghraifft, nod CTRh Canolbarth Cymru yw darparu ymyriadau trafnidiaeth yn y gymuned, a fydd o fudd i bobl hŷn nad oes ganddynt gerbyd preifat ac nad ydynt yn byw yn agos at gyfleusterau hanfodol, megis gofal iechyd. | |

| Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn? |
|---|
| Darparodd yr Achos dros Newid ddata ar dueddiadau o ran poblogaeth ac oedran yng Nghanolbarth Cymru. Gwelwyd bod gan Ganolbarth Cymru gyfran uchel o drigolion 65 oed a throsodd, gyda chynnydd mawr yn y grŵp oedran hwn rhwng 2011 a 2021. Yn y cyfamser, mae nifer y bobl rhwng 15 a 64 oed wedi gostwng yn y Canolbarth. I gefnogi hyn, mae erthygl Senedd Cymru, 'Rhoi'r 'cyhoedd' yn ôl i drafnidiaeth gyhoeddus', yn esbonio sut "mae trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu i fynd i'r afael â materion economaidd-gymdeithasol allweddol fel cynhwysiant cymdeithasol a mynediad at waith". Mae Sefydliad Bevan wedi tynnu sylw at rôl trafnidiaeth gyhoeddus o ran cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn a rhai sydd ar incwm isel."<br><br>Mae'r data hwn yn pwysleisio'r angen am welliannau i'r ffactorau allweddol o ran denu pobl i'r ardal, megis mynediad at gyflogaeth a gofal iechyd, er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn a'r gostyngiad yn y nifer y bobl o oedran gweithio yn y Canolbarth. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl oherwydd eu hoedran. Bydd pob cynllun yn ymgorffori effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis trwy'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd lle bo'n berthnasol, a thrwy ymgynghori gyda gwahanol grwpiau oedran, a grwpiau mynediad ac anabledd wrth ddatblygu'r cynllun. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Amhariad ar y clyw** | Cadarnhaol |
| **Amhariad corfforol** | Cadarnhaol |
| **Amhariad ar y golwg** | Cadarnhaol |
| **Anabledd Dysgu** | Cadarnhaol |
| **Salwch hirdymor** | Cadarnhaol |
| **Iechyd Meddwl** | Cadarnhaol |
| **Arall** | Cadarnhaol |

| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** |
|---|
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar bobl oherwydd eu hanabledd. Er enghraifft, un o'r amcanion yw '*gwella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden'*. Drwy gyflawni'r amcan hwn, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn helpu i gael gwared ar rwystrau corfforol rhag teithio i wasanaethau hanfodol, megis gofal iechyd.<br><br>Bydd y Cynllun yn cynnwys cynlluniau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ac ymgynghorir â grwpiau anabledd a mynediad yn ystod datblygiad y cynllun i sicrhau bod CTRh Canolbarth Cymru yn hyrwyddo mynediad i bawb a bod unrhyw effeithiau andwyol ar y nodwedd warchodedig hon yn cael eu lliniaru. Felly, bydd gwelliannau cyffredinol i'r rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â CTRh Canolbarth Cymru yn gwneud gwahanol ddulliau trafnidiaeth yn fwy cynhwysol ar gyfer gwahanol anghenion, megis mwy o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth gymunedol. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae 'bwlch hygyrchedd trafnidiaeth' wedi'i nodi yn y DU, gyda phobl anabl yn mynd ar 38% yn llai o deithiau na phobl heb anableddau, gwahaniaeth sy'n deillio'n bennaf o anallu'r system drafnidiaeth i ddarparu'n ddigonol ar gyfer anghenion pobl anabl . Er enghraifft, adroddwyd bod 1 o bob 5 o bobl anabl yn methu teithio oherwydd diffyg opsiynau trafnidiaeth priodol.<br><br>Mae'r mater hwn yn debygol o waethygu yn y Canolbarth oherwydd argaeledd cyffredinol gwael trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth, a amlygwyd yn yr Achos dros Newid. Yn benodol, amlygodd yr Achos dros Newid fod llai o bobl o fewn pellter cerdded i safle bws o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, tra bod Canolbarth Cymru hefyd â'r ganran uchaf o orsafoedd rheilffordd nad oes ganddynt fynediad heb risiau. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl oherwydd eu hanabledd. Bydd pob cynllun yn ymgorffori effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis trwy'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd lle bo'n berthnasol, ac yn ymgynghori gyda grwpiau mynediad ac anabledd wrth ddatblygu'r cynllun. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Menywod Traws** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Dynion Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Anneuaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Er bod effeithiau uniongyrchol CTRh Canolbarth Cymru ar bobl drawsryweddol yn debygol o fod yn rhai pitw iawn, dylid nodi y gallai'r nodwedd warchodedig hon brofi rhai effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i welliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth cyffredinol. Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru *'i wella gwydnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol'* yn helpu i greu amgylchedd mwy cynhwysol drwy wella diogelwch tybiedig wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth, a thrwy hynny ei wneud yn fwy deniadol i grwpiau sy'n fwy agored i wahaniaethu a thrais. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae diogelwch wrth deithio yn bryder arbennig i bobl drawsryweddol. Er enghraifft, dangoswyd ei bod yn well gan bobl drawsryweddol deithio mewn grŵp, neu eu bod yn aml yn osgoi trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfan gwbl am eu bod yn ofni y bydd rhywun yn aflonyddu arnynt, yn enwedig gyda'r nos .<br><br>Felly mae gan CTRh Canolbarth Cymru y potensial i gael effaith gadarnhaol ar bobl drawsrywiol drwy gynlluniau a fydd yn gwella diogelwch canfyddedig a diogelwch go iawn gwahanol ddulliau o deithio. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl drawsryweddol. Bydd pob cynllun yn ymgorffori effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis drwy ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun. | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Pobl Ddeurywiol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion hoyw** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Heterorywiol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |

| |
|---|
| Er bod effeithiau uniongyrchol CTRh Canolbarth Cymru ar bobl sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol yn debygol o fod yn rhai pitw iawn, dylid nodi y gallai'r nodwedd warchodedig hon brofi rhai effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i welliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth cyffredinol. Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru *'i wella gwydnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol'* yn helpu i greu amgylchedd mwy cynhwysol drwy wella diogelwch tybiedig wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth, a thrwy hynny ei wneud yn fwy deniadol i grwpiau sy'n fwy agored i wahaniaethu a thrais. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae astudiaethau wedi dangos bod pobl o fewn y gymuned LHDTC yn profi teimladau cynyddol o ofn a bregusrwydd wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a'u bod yn debygol o deimlo eu bod wedi'u heithrio'n fwy rhag defnyddio trafnidiaeth.<br><br>Felly mae gan CTRh Canolbarth Cymru y potensial i gael effaith gadarnhaol drwy gynlluniau a fydd yn gwella diogelwch canfyddedig a diogelwch go iawn gwahanol ddulliau o deithio. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. Bydd pob cynllun yn ymgorffori effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis drwy ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun. |

| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Pobl sy'n briod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir y bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Mae'r effaith gadarnhaol bosibl ar barau o'r un rhyw wedi'i nodi yn yr adran sy'n ymdrin â phobl sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

| |
|---|
| Ni ragwelir y bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Mae tystiolaeth i gefnogi effeithiau cadarnhaol CTRh Canolbarth Cymru ar bobl o'r un rhyw sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil wedi'i harchwilio yn yr adran sy'n ymdrin â phobl sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. Bydd pob cynllun yn ymgorffori'r effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis drwy ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun. |

| | |
|---|---|
| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Beichiogrwydd** | Cadarnhaol |
| **Mamolaeth** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. Er enghraifft, un o'r amcanion yw *'gwella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden'*. Drwy gyflawni'r amcan hwn, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn helpu i gael gwared ar rwystrau corfforol rhag teithio i wasanaethau hanfodol, megis gofal iechyd.<br><br>Bydd CTRh Canolbarth Cymru hefyd yn anelu at '*gynyddu lefelau cerdded a beicio o fewn Canolbarth Cymru*'. Drwy wella'r seilwaith cerdded a beicio, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â symudedd cyfyngedig neu gadeiriau gwthio drwy ddarparu nodweddion megis cyrbau isel a chyfleusterau gorffwys, gan wneud cerdded a beicio yn fwy dymunol i bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. . | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos y berthynas rhwng pobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth â thrafnidiaeth. Fodd bynnag, mae darparu nodweddion penodol, megis seddi â blaenoriaeth a lle ar gyfer cadeiriau gwthio, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar ansawdd y teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. | |

| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** |
|---|
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. |

| **A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwyn** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau ethnig eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Er bod effeithiau uniongyrchol CTRh Canolbarth Cymru ar bobl o darddiad ethnig gwahanol yn debygol o fod yn rhai pitw, dylid nodi y gallai'r nodwedd warchodedig hon brofi rhai effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i welliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth cyffredinol. Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru 'i wella gwydnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol' yn helpu i greu amgylchedd mwy cynhwysol drwy wella diogelwch tybiedig wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth, a thrwy hynny ei wneud yn fwy deniadol i grwpiau sy'n fwy agored i wahaniaethu a thrais. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Dangoswyd bod grwpiau ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o brofi tlodi trafnidiaeth, ac mae pobl o fewn cymunedau Du yn fwy tebygol o brofi rhwystrau rhag cael mynediad at ofal iechyd, megis diffyg opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus . Felly, mae pobl yn wynebu bwlch o ran hygyrchedd ac argaeledd trafnidiaeth oherwydd eu tarddiad ethnig.<br><br>Gall gwelliannau i hygyrchedd y rhwydwaith trafnidiaeth, megis mynd i'r afael â rhwystrau corfforol ac economaidd-gymdeithasol, helpu i bontio'r bwlch hwn ac maent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |

| **A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
|---|
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl o darddiad ethnig gwahanol. Bydd pob cynllun yn ymgorffori'r effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis drwy ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sydd â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Bwdhaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cristion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Hindŵaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dyneiddiwr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Iddewig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mwslim** | Dim/Fawr Ddim |
| **Sikh** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl heb gred** | Dim/Fawr Ddim |
| **Eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Er bod effeithiau uniongyrchol CTRh Canolbarth Cymru ar bobl sydd â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred yn debygol o fod yn rhai pitw, dylid nodi y gallai'r nodwedd warchodedig hon brofi rhai effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i welliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth cyffredinol. Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru *'i wella gwydnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol'* yn helpu i greu amgylchedd mwy cynhwysol, drwy wella diogelwch tybiedig wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth, a thrwy hynny ei wneud yn fwy deniadol i grwpiau sy'n fwy agored i wahaniaethu a thrais.<br><br>Trwy CTRh Canolbarth Cymru a gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth, bydd cyrchfannau crefyddol arwyddocaol megis mannau addoli hefyd yn haws eu cyrraedd. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |

Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol, ond roedd yr Achos dros Newid yn dangos bod y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn wael i lawer o drigolion ardaloedd gwledig y Canolbarth, yn enwedig ar benwythnosau. Gallai hyn effeithio ar allu cymunedau i gyrraedd mannau addoli ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl sydd â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred. Bydd pob cynllun yn ymgorffori'r effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun.

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Dynion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod** | Dim/Fawr Ddim |

**Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**

Er bod effeithiau uniongyrchol CTRh Canolbarth Cymru ar ddynion neu fenywod yn debygol o fod yn rhai pitw, dylid nodi y gallai menywod brofi rhai effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i welliannau cyffredinol i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru *'i wella gwydnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol'* yn helpu i greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer teithio, drwy gynyddu lefelau diogelwch tybiedig wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth, a thrwy hynny ei wneud yn fwy deniadol i grwpiau sy'n fwy agored i drais ac yn teimlo'n anniogel.

**Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?**

Mae astudiaethau wedi dangos bod menywod yn wynebu mwy o ofnau a phroblemau diogelwch wrth ddefnyddio trafnidiaeth, serch eu bod yn gwneud mwy o siwrneiau ac yn fwy tebygol o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus na dynion. Er enghraifft, canfu astudiaeth yn Llundain bod 94% o fenywod yn teimlo dan fygythiad wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a dywedodd 28% eu bod wedi dioddef digwyddiad yn ymwneud â rhyw ar drafnidiaeth gyhoeddus . Yn yr un modd, canfu astudiaeth yn yr Alban bod cyfran fawr o fenywod yn anfodlon â'r diogelwch ar lwybrau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar ddynion a menywod. Bydd pob cynllun yn ymgorffori'r effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis drwy ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun. |

| **A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cyn-filwyr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwŷr/gwragedd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Plant** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Ni ragwelir y bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r effaith gadarnhaol bosibl ar blant wedi'i nodi yn yr adran sy'n ymdrin ag effeithiau ar bobl oherwydd eu hoedran. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Bernir bod effeithiau CTRh Canolbarth Cymru ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog yn debyg i'r ddemograffeg a archwiliwyd ac a dystiwyd iddi mewn adrannau blaenorol. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog. | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae unigolyn yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Bydd amcan CTRh Canolbarth Cymru i *'wella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden'* yn golygu y bydd pobl yn gallu mynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol yn well, megis cael cysylltiadau gwell ag amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg a chyflogaeth. Bydd gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth o ganlyniad i CTRh Canolbarth Cymru yn golygu bod mwy o ddulliau teithio mwy fforddiadwy ar gael, ac yn lleihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | |
| Mae pobl ar incwm is mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan dlodi trafnidiaeth, a rhagwelir y byddai angen i 40-50% o boblogaeth Powys a 30-40% o boblogaeth Ceredigion wario dros 10% o'u hincwm ar redeg car. Felly, bydd cynyddu'r opsiynau o ran trafnidiaeth mwy fforddiadwy yn lleihau'r angen i wario cyfran sylweddol o incwm ar drafnidiaeth. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd pob cynllun yn ymgorffori'r effeithiau ar gydraddoldeb yn ei ddyluniad, megis ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu'r cynllun. | |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

**Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM**

Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cyfrannu at gymdeithas sydd â chymunedau deniadol, hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da drwy gyflawni'r amcanion, gan gynnwys:
- *'Gwella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden (fel Parciau Cenedlaethol) a gwella cysylltiadau rhwng cymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd hygyrchedd i gynhwysiant cymdeithasol a chysylltiadau cymdeithasol; a*
- *Lleihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth, megis trwy leihau'r defnydd o danwydd ffosil, cynnyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a gwell cysylltedd digidol.'*

Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn helpu i wella cydlyniant ffisegol a digidol rhwng cymunedau, yn ogystal â lleihau teimladau o unigrwydd ac eithrio digidol.

Bydd amcan Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru 'i wella gwydnwch, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol' yn helpu i greu cymunedau mwy deniadol, hyfyw a diogel drwy wella lefelau canfyddedig o ddiogelwch a boddhad cyffredinol â'r ardal leol.

**Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?**

Nododd yr Achos dros Newid mai Powys a Cheredigion oedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau, gan gynnwys Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Bugeildy ym Mhowys sydd yn yr ail safle mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gall anhawster i gael mynediad at wasanaethau allweddol gael effaith negyddol ar deimladau o gysylltedd o fewn cymdeithas, gan arwain at unigrwydd ac arwahanrwydd. Er enghraifft, dywedodd 13% o bobl Cymru gyfan eu bod yn unig yn 2022-2023 . Fodd bynnag, mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn broblem arbennig i gefn gwlad Cymru oherwydd mynediad cyfyngedig i ardaloedd eraill o'r gymuned.

Felly, bydd gwella mynediad at wasanaethau a gwella cysylltedd digidol trwy gyflawni nodau CTRh Canolbarth Cymru yn golygu bod pobl yn teimlo bod ganddynt fwy o gysylltiad â'r gymuned maent yn byw ynddi.

**Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar y nod llesiant hwn.

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.**

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** |
|---|
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nod hwn drwy wella mynediad at safleoedd diwylliant a threftadaeth, yn ogystal â chanolfannau celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Bydd yr amcan i *'wella mynediad i bawb at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden (fel Parciau Cenedlaethol) a gwella cysylltiadau rhwng cymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd hygyrchedd i gynhwysiant cymdeithasol a chysylltiadau cymdeithasol '* yn sicrhau bod gwasanaethau a'r seilwaith trafnidiaeth lleol yn darparu cysylltiadau digonol ag ardaloedd allweddol. Bydd rhwydwaith trafnidiaeth sydd wedi'i gysylltu'n well yn galluogi pobl i gael mynediad haws, ac felly'n hyrwyddo cyfleusterau/safleoedd diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau, chwaraeon a hamdden.<br><br>Yn ogystal â mynediad at safleoedd arwyddocaol allweddol, bydd CTRh Canolbarth Cymru yn helpu i feithrin amgylchedd glanach gyda llai o allyriadau a llai o lygredd aer, a thrwy hynny yn helpu i ddiogelu wyneb allanol asedau hanesyddol pwysig.<br><br>Gall CTRh hefyd sicrhau bod gwelliannau ac ymyriadau trafnidiaeth yn ymgorffori ac yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn eu darpariaeth. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Pwysleisiodd yr Achos dros Newid bwysigrwydd cysylltedd a hygyrchedd i ymwelwyr, gan ddangos yr effeithiau cadarnhaol y gall gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth cyffredinol eu cael ar hygyrchedd ac felly ar werthfawrogiad o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.<br><br>Amlygodd yr Achos dros Newid hefyd rôl sylweddol twristiaeth o fewn economi a chyflogaeth Canolbarth Cymru. Er enghraifft, amcangyfrifwyd bod cyfanswm effaith economaidd twristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheinog yn 2019 yn £326 miliwn, a'i fod yn cynnal dros 4,000 o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn. Mae yna hefyd nifer o henebion, parciau a gerddi, ac Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol ledled Powys a Cheredigion. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwella mynediad i leoliadau twristiaeth arwyddocaol. |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar y nod llesiant hwn. Gall CTRh Canolbarth Cymru gyfrannu'n bositif at y nod hwn drwy sicrhau nad yw ymyriadau trafnidiaeth yn cael effaith negyddol ar safleoedd diwylliannol a threftadol sydd wedi'u gwarchod. |
| |

| | |
|---|---|
| **Mewn perthynas â'r canlynol, ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu effaith negyddol ar y Gymraeg?**<br>Cliciwch yma am wybodaeth | |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** | Positive |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | None / Negligible |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ym Mhowys (16.4%) ychydig yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (17.8%), tra bod y ffigur ar gyfer Ceredigion yn sylweddol uwch (45.3%). Felly, mae potensial i ymyriadau trafnidiaeth ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ym Mhowys ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, ac felly cynyddu ei defnydd. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg?** | |
| Does dim effeithiau negyddol tybiedig ar y Gymraeg. Gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg drwy ymgorffori arwyddion dwyieithog, er enghraifft, yn ymyriadau CTRh Canolbarth Cymru.<br>. | |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |

| |
|---|
| Bydd CTRh Canolbarth Cymru yn cyfrannu at y nod hwn drwy annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, gan leihau allyriadau carbon trafnidiaeth a chyfrannu at well ansawdd aer. Bydd hyn yn helpu i gyflawni nodau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n ymwneud â datgarboneiddio. Amcanion CTRh Canolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â chyfrifoldeb byd-eang yw:<br>- *Cyflawni newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy;*<br>- *Cynyddu lefelau cerdded, beicio ac olwyno yng Nghanolbarth Cymru;*<br>- *Gwella cyfnewidfeydd ac integreiddio rhwng dulliau trafnidiaeth cynaliadwy o fewn cymunedau; a*<br>- *Lleihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth, megis drwy leihau'r defnydd o danwydd ffosil, cynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a gwell cysylltedd digidol.'* |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Mae amcanion CTRh Canolbarth Cymru wedi'u harfarnu yn erbyn blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac yn erbyn amcanion llesiant y CBC i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfrifoldebau byd-eang ehangach, megis targedau datgarboneiddio a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. . |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Nid oes unrhyw effeithiau negyddol tybiedig ar y nod llesiant hwn. |

## Cryfhau'r Cynnig

Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cynnal arolygon bioamrywiaeth ac ecoleg pellach fel bo'n briodol i benderfynu ar y mesurau lliniaru mwyaf priodol ar gyfer cynlluniau CTRh Canolbarth Cymru. | Yn ystod datblygiad y cynllun | Awdurdod Lleol | Ar ôl i CTRh Canolbarth Cymru gael ei gymeradwyo |

| |
|---|
| **Os nad ydych chi'n bwriadu cymryd camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal ag esbonio pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
| Amh. |

| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
|---|
| Bydd Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cael ei gynhyrchu yn nodi sut y bydd cynnydd yn erbyn amcanion CTRh Canolbarth Cymru yn cael ei fonitro. |

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>AWGRYM | • Ystyriodd yr Achos dros Newid y materion a'r cyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth.<br>• Mae gweledigaeth ac amcanion CTRh Canolbarth Cymru yn nodi'r hyn y mae'r Cynllun am ei gyflawni.<br>• Mae effeithiau hirdymor CTRh Canolbarth Cymru wedi'u hasesu, e.e. effeithiau lles.<br>• Nod CTRh Canolbarth Cymru yw galluogi ac annog cymunedau yng nghefn gwlad Canolbarth Cymru i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a fydd â manteision hirdymor, e.e. o ran lleihau carbon, iechyd a llesiant. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau<br><br>AWGRYM | • Bydd awdurdodau lleol CBC Canolbarth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth agos i ddatblygu CTRh Canolbarth Cymru.<br>• Sefydlwyd Gweithgor CTRh Canolbarth Cymru i lywio datblygiad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Canolbarth ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.<br>• Mae Gweithgor CTRh Canolbarth Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr cynllunio defnydd tir Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau cysylltiadau rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol.<br>• Mae CTRh Canolbarth Cymru yn dangos pwysigrwydd gweithredu ar y cyd ag amrywiaeth o sefydliadau i gyflawni CTRh Canolbarth Cymru. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | • Cynhaliwyd gweithdai rhanddeiliaid rhwng Ebrill a Gorffennaf 2024 i lywio datblygiad CTRh Canolbarth Cymru.<br>• Mynychwyd y gweithdai gan amrywiaeth o gynrychiolwyr trafnidiaeth a rhai nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth, gan gynnwys, e.e. iechyd, addysg, yr amgylchedd, busnes, cludo nwyddau, twristiaeth, y trydydd sector, awdurdodau lleol cyfagos a thrawsffiniol. |

| | |
|---|---|
| | • Mae adborth gan randdeiliaid wedi llywio Achos dros Newid, gweledigaeth ac amcanion, polisïau a phrosiectau CTRh Canolbarth Cymru.<br>• Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch CTRh Drafft Canolbarth Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer Gwanwyn 2025. |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | • Nod amcanion a pholisïau CTRh Canolbarth Cymru yw atal materion rhag gwaethygu yn y dyfodol.<br>• Nod polisïau CTRh Canolbarth Cymru o gynyddu teithio cynaliadwy a lleihau'r defnydd o geir yw atal problemau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir rhag gwaethygu.<br>• Bydd defnydd cynyddol o drafnidiaeth gynaliadwy o fudd i amcanion a thargedau ehangach, e.e. yn ymwneud â newid moddol, lleihau carbon ac iechyd. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar y pedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill, ac ar draws meysydd gwasanaeth o fewn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | • Mae llawer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi llywio datblygiad CTRh Canolbarth Cymru.<br>• Mae amcanion a pholisïau CTRh Canolbarth Cymru wedi'u hasesu yn erbyn uchelgeisiau a blaenoriaethau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.<br>• Amlygwyd cysylltiadau agos rhwng CTRh Canolbarth Cymru â Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.<br>• Mae polisïau CTRh Canolbarth Cymru yn amlygu cysylltiadau â chynlluniau a rhaglenni ALl ehangach, e.e. Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol.<br>• Mae polisïau CTRh Canolbarth Cymru yn amlygu cysylltiadau â gwaith sefydliadau eraill, e.e. Gwaith argyfwng hinsawdd BGC Powys. |

## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |
| **Disgrifiad o'r risg** | | **Effaith** (difrifoldeb**)** | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae Cofrestr Risg ar waith i gefnogi datblygiad CTRh Canolbarth Cymru | | | |

## Cymeradwyo

| **Swydd** | **Enw** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | | X | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | | X | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | | X | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |
| **Deiliad y Portffolio** | | X | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |

[1]

[1] Diweddariad ddiwethaf: 20/10/2023